

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd

## **Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Ers ei phenodiad, mae pennaeth gweithredol Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn gweithio'n ddiwyd gydag arweinwyr i adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol a chynhaliol i ddisgyblion. Mae eu hadnabyddiaeth o'r disgyblion yn dda ac maent yn datblygu perthynas waith ofalgar a diogel wrth iddynt eu cefnogi i ddysgu.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel o'r staff ac yn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau'n briodol trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd gofalu am les y staff a'r disgyblion. Mae athrawon a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu. Mae'r gofal a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder.

Mae gan athrawon adnabyddiaeth dda o ddiddordebau'r disgyblion ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddarparu ystod o weithgareddau diddorol a chyffrous sy'n ennyn brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion. Er hynny, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn herio'r disgyblion yn ddigon effeithiol i ddatblygu eu medrau'n addas mewn ystod gyfoethog o weithgareddau. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae staff yn cydweithio'n dda i ddarparu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n eu hysbrydoli i ymchwilio a darganfod yn annibynnol. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae ychydig o athrawon yn gor-arwain y dysgu sy'n cyfyngu disgyblion i wneud penderfyniadau am beth i'w gyflwyno yn eu gwaith a sut.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn ymfalchïo yn eu hardal leol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn cydweithio'n dda. Yn gyffredinol, maent yn mwynhau defnyddio eu medrau i fod yn ddysgwyr brwdfrydig a chreadigol, er enghraifft mewn gweithgareddau digidol, celf a chelfyddydau mynegiannol. Er bod medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn datblygu'n gyson, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi'r mwyafrif i ddatblygu a chymhwyso'r medrau hyn yn ddigon effeithiol. Maent yn datblygu medrau corfforol da yn gyson ar draws y cwricwlwm.

# Argymhellion

**A1** **Gwella medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion**

**A2** **Darparu gweithgareddau sy'n sicrhau her gyson i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 424 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 287 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 73 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 4.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 34.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 28/02/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/03/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  01/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.